



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH
STATUTORY INSTRUMENTS

2010 Rhif 269 (Cy.33)

2010 No. 269 (W.33)

**PYSGODFEYDD MÔR,
CYMRU**

**SEA FISHERIES,
WALES**

CADWRAETH PYSGOD MÔR

CONSERVATION OF SEA FISH

**Gorchymyn Pysgota am Gregyn
Bylchog (Cymru) (Rhif 2) 2010**

**The Scallop Fishing (Wales) (No.2)
Order 2010**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

Mae'r Gorchymyn hwn, sydd yn gymwys o ran Cymru, yn rheoleiddio pysgota am gregyn bylchog yn "nyfroedd Cymru" ac yn dod i rym ar 1 Mawrth 2010. At ddibenion y Gorchymyn hwn diffinnir "dyfroedd Cymru" fel yr ardaloedd morwrol sydd o fewn "Cymru" fel y'i diffinnir gan adran 158 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

This Order, which applies in relation to Wales, regulates scallop fishing in "Welsh waters" and comes into force on 1 March 2010. For the purposes of the Order "Welsh waters" are defined as being those sea areas falling within "Wales" as defined by section 158 of the Government of Wales Act 2006.

Mae erthygl 3 yn cyfyngu ar faint allbwn peiriant y llongau pysgota Prydeinig y caniateir iddynt ddefnyddio llusgrwydi cregyn bylchog.

Article 3 restricts the engine output capacity of British fishing boats which may use scallop dredges.

Mae erthygl 4 yn darparu ar gyfer tymor caeedig o ran pysgota cregyn bylchog, sef cyfnod a fydd yn cychwyn ar 1 Mehefin 2010, ac ar 1 Mai ym mhob blwyddyn ddilynol, ac yn diweddu ar 31 Hydref.

Article 4 provides for a closed season in respect of scallop fishing, being a period commencing on 1 June 2010, and on 1 May in each subsequent year, and ending on the 31 October.

Mae erthygl 5 yn gwahardd defnyddio llusgrwydi cregyn bylchog ar unrhyw adeg o fewn un filltir forol i'r gwaelodlinau y mesurir lled y môr tiriogaethol ohonynt.

Article 5 prohibits the use of scallop dredges at any time within one nautical mile of the baselines from which the breadth of the territorial sea is measured.

Mae erthygl 6 yn darparu terfynau ar niferoedd y llusgrwydi cregyn bylchog y caniateir eu defnyddio ar unrhyw un adeg yn yr ardaloedd rhwng 1 a 3 milltir forol, 3 i 6 milltir forol a 6 i 12 milltir forol oddi ar arfordir Cymru.

Article 6 provides limits as to the number of scallop dredges that may be used at any one time in the areas between 1 and 3 nautical miles, 3 to 6 nautical miles and 6 to 12 nautical miles off the Welsh coast.

Mae erthygl 7 yn ei gwneud yn ofynnol bod rhaid storio pob llusgrwyd cregyn bylchog, pan nas defnyddir yn gyfreithlon, yn ddiogel ar fwrdd y cwch pysgota.

Article 7 requires that, when not lawfully in use, all scallop dredges must be securely stored onboard the fishing boat.

Mae erthygl 8 yn darparu cyfyngiadau ar faint y bariau tynnu y caniateir eu defnyddio gan gychod pysgota Prydeinig yn yr ardaloedd rhwng 1 a 3 milltir forol, 3 i 6 milltir forol a 6 i 12 milltir forol oddi ar arfordir Cymru.

Mae erthygl 9 yn gwneud darpariaeth ynglŷn â diamedr allanol mwyaf y bar tynnu y caniateir ei ddefnyddio.

Mae erthygl 10 yn pennu manyleb y llusgrwydi cregyn bylchog y caniateir eu tynnu.

Mae erthygl 11 yn pennu maint lleiaf cragen fylchog y caniateir ei chario ar gwch pysgota Prydeinig, a'r dull a ddefnyddir i fesur cregyn bylchog.

Mae erthygl 12 yn gwahardd pysgota am gregyn bylchog drwy lusgrwydo o fewn ardaloedd dynodedig a bennir yn yr Atodlen.

Mae erthygl 13 yn darparu ar gyfer pwerau penodol i swyddogion pysgodfeydd môr Prydeinig fynd ar fwrdd, chwilio a chadw'n gaeth llongau pysgota Prydeinig, ac archwilio, copïo a chadw dogfennau.

Mae erthygl 14 yn dirymu Gorchymyn Gwahardd Pysgota am Gregyn Bylchog (Cymru) 2009 a Gorchymyn Pysgota am Gregyn Bylchog (Cymru) 2010.

Hysbyswyd y Comisiwn Ewropeaidd o'r darpariaethau drafft a gynhwysir yn erthyglau 2, 3, 6, 8, 9, 10 ac 11 o'r Gorchymyn hwn, yn unol â gofynion Erthygl 8 o Gyfarwyddeb 98/34/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n pennu gweithdrefn ar gyfer darparu gwybodaeth ym maes safonau a rheoliadau technegol (OJ Rhif L 204, 21.7.98, t.37) fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb 98/48/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L 217, 5.8.98, t.18).

Gwnaed asesiad effaith rheoleiddiol mewn cysylltiad â'r Gorchymyn hwn ac y mae ar gael i'w archwilio yn swyddfeydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Article 8 provides restrictions as to the size of the tow bars which may be used by British fishing boats in the areas between 1 and 3 nautical miles, 3 to 6 nautical miles and 6 to 12 nautical miles off the Welsh coast.

Article 9 provides for the maximum external diameter of tow bar which may be used.

Article 10 fixes the specification of scallop dredges which may be towed.

Article 11 fixes the minimum size of scallop which may be carried by a British fishing boat and the method to be used for measuring scallops.

Article 12 prohibits fishing for scallops by dredging within designated areas set out in the Schedule.

Article 13 provides for British sea fishery officers to have certain powers to board, search and detain British fishing boats and to inspect, copy and detain documents.

Article 14 revokes the Prohibition of Fishing for Scallops (Wales) Order 2009 and the Scallop Fishing (Wales) Order 2010.

The provisions contained in articles 2, 3, 6, 8, 9, 10 and 11 of this Order were notified in draft to the European Commission in accordance with the requirements of Article 8 of Directive 98/34/EC of the European Parliament and of the Council laying down a procedure for the provision of information in the field of technical standards and regulations (OJ No L 204, 21.7.98, p.37) as amended by Directive 98/48/EC of the European Parliament and of the Council (OJ No L 217, 5.8.98, p.18).

A regulatory impact assessment has been undertaken in respect of this Order and is available for inspection at the offices of the Welsh Assembly Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

2010 Rhif 269 (Cy.33)

2010 No. 269 (W.33)

**PYSGODFEYDD MÔR,
CYMRU**

**SEA FISHERIES,
WALES**

CADWRAETH PYSGOD MÔR

CONSERVATION OF SEA FISH

**Gorchymyn Pysgota am Gregyn
Bylchog (Cymru) (Rhif 2) 2010**

**The Scallop Fishing (Wales) (No.2)
Order 2010**

Gwnaed 8 Chwefror 2010
*Gosodwyd gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cymru* 8 Chwefror 2010
Yn dod i rym 1 Mawrth 2010

Made 8 February 2010
*Laid before the National
Assembly for Wales* 8 February 2010
Coming into force 1 March 2010

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 1, 3, 5, 5A, 15(3) a 20(1) o Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967(1), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(2), a pharagraff 1A o Atodlen 2 i Ddeddf y

The Welsh Ministers make the following Order in exercise of the powers conferred by sections 1, 3, 5, 5A, 15(3) and 20(1) of the Sea Fish (Conservation) Act 1967(1), now vested in them(2), and paragraph 1A of

(1) 1967 p. 84. Amnewidiwyd adran 1 gan Ddeddf Pysgodfeydd 1981 (p. 29), adran 19(1) ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Llongau Masnach 1995 (p. 21), adran 314(2) ac Atodlen 13, paragraff 38(a) a chan Orchymyn Deddf yr Alban 1998 (Addasiadau Canlyniadol) (Rhif 2) 1999 (O.S. 1999/1820), Atodlen 2, paragraff 43(1), (2) a (3). Diwygiwyd adran 3 gan Ddeddf Terfynau Pysgodfeydd 1976 (p. 86), adran 9 ac Atodlen 2, paragraff 16(1), gan Ddeddf Pysgota'r Glannau (Yr Alban) 1984 (p. 26), adran 10(1) ac Atodlen 1 a chan O.S. 1999/1820, erthygl 4 ac Atodlen 2, paragraff 43(1), (2) a (4). Diwygiwyd adran 5 gan Ddeddf Pysgodfeydd 1981 (p. 29), adran 22(1), (2) a (3), gan Ddeddf Llongau Masnach 1995 (p. 21), adran 314(2) ac Atodlen 13, paragraff 38(b) a chan O.S. 1999/1820, erthygl 4 ac Atodlen 2, paragraff 43(1) a (2). Mewnysodwyd adran 5A gan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p.25), adran 103(1). Amnewidiwyd adran 15(3) gan Ddeddf Pysgodfeydd Môr 1968 (p. 77), adran 22(1) ac Atodlen 1, paragraff 38(3) ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Terfynau Pysgodfeydd 1976 (p. 86), adran 9 ac Atodlen 2, paragraff 16(1) ac O.S. 1999/1820, erthygl 4 ac Atodlen 2, paragraff 43(1) a (2). Gweler adran 22(2) am ddiffiniadau o "the Ministers"; diwygiwyd adran 22(2) gan Ddeddf Pysgodfeydd 1981 (p. 29), adrannau 19(2)(d), 45(a), (b) ac (c) a 46(2), gan O.S. 1999/1820, erthygl 4 ac Atodlen 2, paragraff 43(1) a (12) a chan Ddeddf Cyfansoddiad Gogledd Iwerddon 1973 (p. 36), adran 40 ac Atodlen 5, paragraff 8(1).

(2) Yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwnnw, trosglwyddwyd y swyddogaethau sy'n arferadwy o dan adrannau 1, 3, 5, 5A, 15(3) a 20 o Ddeddf 1967 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (fel y'i cyfansoddiwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p. 38)) i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru (gan weithredu'n gyfamserol ag unrhyw Weinidog y Goron y mae'r swyddogaethau yn arferadwy ganddo o ran adran 15(3)). Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny o Gynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno.

(1) 1967 c.84. Section 1 was substituted by the Fisheries Act 1981 (c. 29), section 19(1) and amended by the Merchant Shipping Act 1995 (c. 21), section 314(2) and Schedule 13, paragraph 38(a) and the Scotland Act 1998 (Consequential Modifications) (No. 2) Order 1999 (S.I. 1999/1820), Schedule 2, paragraph 43(1), (2) and (3). Section 3 was amended by the Fishery Limits Act 1976 (c.86), section 9 and Schedule 2, paragraph 16(1), the Inshore Fishing (Scotland) Act 1984 (c. 26), section 10(1) and Schedule 1 and S.I. 1999/1820, article 4 and Schedule 2, paragraph 43(1), (2) and (4). Section 5 was amended by the Fisheries Act 1981 (c.29), section 22(1), (2) and (3) and amended by the Merchant Shipping Act 1995 (c.21), section 314(2) and Schedule 13, paragraph 38(b) and S.I. 1999/1820, article 4 and Schedule 2, paragraph 43(1) and (2). Section 5A was inserted by the Environment Act 1995 (c. 25), section 103(1). Section 15(3) was substituted by the Sea Fisheries Act 1968 (c. 77), section 22(1) and Schedule 1, paragraph 38(3) and amended by the Fishery Limits Act 1976 (c. 86), section 9 and Schedule 2, paragraph 16(1) and S.I. 1999/1820, article 4 and Schedule 2, paragraph 43(1) and (2). See section 22(2) for definitions of "the Ministers"; section 22(2) was amended by the Fisheries Act 1981 (c. 29), sections 19(2)(d), 45(a), (b) and (c) and 46(2) and by S.I. 1999/1820, article 4 and Schedule 2, paragraph 43(1) and (12) and the Northern Ireland Constitution Act 1973 (c. 36), section 40 and Schedule 5, paragraph 8(1).

(2) By virtue of article 2 of and Schedule 1 to the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) the functions exercisable under sections 1, 3, 5, 5A, 15(3) and 20 of the 1967 Act were transferred to the National Assembly for Wales (as constituted under the Government of Wales Act 1998 (c.38)) in so far as exercisable in relation to Wales (acting concurrently with any Minister of the Crown by whom they are exercisable in relation to section 15(3)). Those functions of the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32).

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer diben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus dehongli'r cyfeiriad yn erthygl 11 o'r Gorchymyn hwn at Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 850/98 ar gadwraeth adnoddau pysgodfeydd drwy fesurau technegol i ddiogelu organebau morol ifanc(2) fel cyfeiriad at y Rheoliad hwnnw fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.–(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Pysgota am Gregyn Bylchog (Cymru) (Rhif 2) 2010.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru a daw i rym ar 1 Mawrth 2010.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn, oni fydd y cyd-destun yn mynnu fel arall–

ystyr "bar tynnu" ("*tow bar*") yw unrhyw ddyfais neu offeryn y gellir ei ddefnyddio ar gyfer gosod llusgrwyd cregyn bylchog ar gwch, neu ei rhoi ynghlwm wrth gwch, er mwyn caniatáu i lusgrwyd o'r fath gael ei thynnu gan y cwch;

ystyr "cregyn bylchog" ("*scallop*") yw pysgod cregyn o'r rhywogaeth *Pecten maximus*;

ystyr "cwch pysgota Prydeinig" ("*British fishing boat*") yw cwch pysgota sydd naill ai wedi'i gofrestru yn y Deyrnas Unedig o dan Ran II o Ddeddf Llongau Masnachol 1995(3) neu sydd dan berchnogaeth lwy'r personau sy'n gymwys i berchnogi llongau Prydeinig at ddibenion y rhan honno o'r Ddeddf honno;

mae i "Cymru" yr ystyr a roddir i "Wales" yn adran 158 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(4);

ystyr "darpariaeth gyfatebol" ("*equivalent provision*") yw darpariaeth mewn unrhyw orchymyn arall sy'n rhychwantu, neu sy'n gymwys i, unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig ac yn gyfystyr o ran effaith â darpariaeth o'r Gorchymyn hwn;

(1) 1972 p. 68. Diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) ("Deddf 2006"). Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf 2006. Mae Gweinidogion Cymru wedi'u dynodi (O.S. 2005/2766) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf 1972 mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd.

(2) OJ Rhif L125, 27.4.1998, t. 1.

(3) 1995 p. 21.

(4) 2006 p. 32.

This Order makes provision for a purpose mentioned in section 2(2) of the European Communities Act 1972, and it appears to the Welsh Ministers that it is expedient for the reference in article 11 of this Order to Council Regulation (EC) No 850/98 for the conservation of fishery resources through technical measures for the protection of juvenile marine organisms(2) to be construed as a reference to that Regulation as amended from time to time.

Title, commencement and application

1.–(1) The title of this Order is the Scallop Fishing (Wales) (No. 2) Order 2010.

(2) This Order applies in relation to Wales and comes into force on 1 March 2010.

Interpretation

2. In this Order, unless the context requires otherwise–

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Sea Fish (Conservation) Act 1967;

"baselines" ("*gwaelodlinau*") means the baselines from which the breadth of the territorial sea is measured for the purposes of the Territorial Sea Act 1987(3);

"British fishing boat" ("*cwch pysgota Prydeinig*") means a fishing boat which is either registered in the United Kingdom under Part II of the Merchant Shipping Act 1995(4) or is owned wholly by persons qualified to own British ships for the purposes of that part of that Act;

"equivalent provision" ("*darpariaeth gyfatebol*") means a provision in any other order extending or applying to any part of the United Kingdom which has equivalent effect to a provision in this Order;

"scallop" ("*cregyn bylchog*") means shellfish of the species *Pecten maximus*;

"scallop dredge" ("*llusgrwyd cregyn bylchog*") includes any appliance with a rigid framed mouth

(1) 1972 c. 68. Section 2(2) was amended by section 27(1) of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006 (c. 51) ("the 2006 Act"). Paragraph 1A of Schedule 2 was inserted by section 28 of the 2006 Act. The Welsh Ministers have been designated (S.I. 2005/2766) for the purposes of section 2(2) of the 1972 Act in relation to the common agricultural policy of the European Community.

(2) OJ No. L125, 27.4.1998, p. 1.

(3) 1987 c.49.

(4) 1995 c.21.

ystyr "dyfroedd Cymru" ("*Welsh waters*") yw ardaloedd môr o fewn Cymru;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967;

ystyr "gwaelodlinau" ("*baselines*") yw'r gwaelodlinau y mesurir lled y môr tiriogaethol ohonynt at ddibenion Deddf Môr Tiriogaethol 1987(1); ac

mae "llusgrwyd cregyn bylchog" ("*scallop dredge*") yw unrhyw gyfarpar ac iddo ffrâm anhyblyg yn enau, a lusgir drwy'r dŵr ac a weithgynhychwyd, a addaswyd, a ddefnyddir neu y bwriedir ei ddefnyddio at y diben o bysgota am gregyn bylchog.

Cyfyngiadau pysgota

3. Ni chaniateir i unrhyw gwch pysgota Prydeinig ar unrhyw adeg, bysgota am, cymryd neu ladd cregyn bylchog gan ddefnyddio llusgrwyd cregyn bylchog yn nyfroedd Cymru onid yw allbwn pŵer peiriant y cwch hwnnw yn ddim mwy na 221 cilowat.

4.–(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), ni chaiff unrhyw berson bysgota, cymryd neu ladd cregyn bylchog yn nyfroedd Cymru yn ystod y cyfnod 1 Mai i 31 Hydref, gan gynnwys y dyddiadau hynny, ym mhob blwyddyn, drwy unrhyw ddull gan gynnwys plymio.

(2) Mewn perthynas â'r flwyddyn galendr 2010 mae'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (1) i gychwyn ar 1 Mehefin 2010.

Cyfyngu ar y nifer o lusgrwydi cregyn bylchog ac ar eu defnyddio

5. Ni chaniateir i unrhyw gwch pysgota Prydeinig ar unrhyw adeg, mewn unrhyw ran o ddyfroedd Cymru bysgota am, cymryd neu ladd cregyn bylchog gan ddefnyddio llusgrwyd cregyn bylchog o fewn 1 filltir forol i waelodlinau.

6. Ni chaniateir i unrhyw gwch pysgota Prydeinig ar unrhyw adeg, bysgota am, cymryd neu ladd cregyn bylchog gan ddefnyddio llusgrwyd cregyn bylchog—

- (a) mewn unrhyw ran o ddyfroedd Cymru sydd ymhellach nag 1 filltir forol ac o fewn 3 milltir forol i waelodlinau, onid yw hyd y cwch hwnnw o ben i ben yn ddim mwy na 10 metr, ac onid yw'n llusgo dim mwy na chyfanswm o 6 llusgrwyd cregyn bylchog;
- (b) mewn unrhyw ran o ddyfroedd Cymru sydd ymhellach nag 3 milltir forol ac o fewn 6 milltir forol i waelodlinau, onid yw'r cwch hwnnw'n llusgo dim mwy na chyfanswm o 8 llusgrwyd cregyn bylchog; ac
- (c) mewn unrhyw ran o ddyfroedd Cymru sydd ymhellach na 6 milltir forol ac o fewn 12 milltir forol i waelodlinau, onid yw'r cwch

which is towed through the water and is manufactured, adapted, used or intended for use for the purpose of fishing for scallops;

"tow bar" ("*bar tynnu*") means any device or appliance which is capable of being used for the purpose of fixing or attaching a scallop dredge to a vessel for the purpose of enabling such a dredge to be towed by the vessel;

"Wales" ("*Cymru*") has the meaning given in section 158 of the Government of Wales Act 2006(1); and

"Welsh waters" ("*dyfroedd Cymru*") means sea areas within Wales.

Fishing restrictions

3. No British fishing boat is permitted, at any time, to fish for, take or kill scallops using a scallop dredge in Welsh waters, unless that boat's engine has a power output not exceeding 221 kilowatts.

4.–(1) Subject to paragraph (2), no person is to fish for, take or kill scallops in Welsh waters during the period 1 May to 31 October inclusive in each year by any means, including diving.

(2) In respect of the calendar year 2010 the period referred to in paragraph (1) is to commence on 1 June 2010.

Restrictions on number and use of scallop dredges

5. No British fishing boat is permitted, at any time, to fish for, take or kill scallops using a scallop dredge in any part of Welsh waters which lie within 1 nautical mile of baselines.

6. No British fishing boat is permitted, at any time, to fish for, take or kill scallops using a scallop dredge—

- (a) in any part of Welsh waters which lies beyond 1 nautical mile and within 3 nautical miles of baselines, unless that boat's overall length does not exceed 10 meters and it is towing no more than 6 scallop dredges in total;
- (b) in any part of Welsh waters which lies beyond 3 nautical miles and within 6 nautical miles of baselines, unless that boat is towing no more than 8 scallop dredges in total; and
- (c) in any part of Welsh waters which lies beyond 6 nautical miles and within 12 nautical miles of baselines, unless that boat is towing no more

(1) 1987 p.49.

(1) 2006 c.32.

hwnnw'n llusgo dim mwy na chyfanswm o 14 llusgrwyd cregyn bylchog.

7. Pan nas defnyddir yn unol â darpariaethau'r Gorchymyn hwn, rhaid storio'r holl lusgrwydi cregyn bylchog yn ddiogel y tu mewn i'r cwch.

Cyfyngiad ar faint barau tynnu

8.–(1) Ni chaniateir i unrhyw gwch pysgota Prydeinig ar unrhyw adeg, mewn unrhyw ran o ddyfroedd Cymru sydd ymhellach nag 1 filltir forol ac o fewn 3 milltir forol i waelodlinau, ddefnyddio bar tynnu mewn cysylltiad â physgota am, cymryd neu ladd cregyn bylchog, onid yw'r bar tynnu hwnnw–

- (a) yn ddim mwy na 3 metr o hyd; a
- (b) wedi ei lunio mewn ffordd nad yw'n caniatáu rhoi mwy na 3 llusgrwyd cregyn bylchog ynghlwm wrtho ar yr un pryd.

(2) Ni chaniateir i unrhyw gwch pysgota Prydeinig ar unrhyw adeg, mewn unrhyw ran o ddyfroedd Cymru sydd ymhellach nag 3 milltir forol ac o fewn 6 milltir forol i waelodlinau, ddefnyddio bar tynnu mewn cysylltiad â physgota am, cymryd neu ladd cregyn bylchog, onid yw'r bar tynnu hwnnw–

- (a) yn ddim mwy na 4 metr o hyd; a
- (b) wedi ei lunio mewn ffordd nad yw'n caniatáu rhoi mwy na 4 llusgrwyd cregyn bylchog ynghlwm wrtho ar yr un pryd.

(3) Ni chaniateir i unrhyw gwch pysgota Prydeinig ar unrhyw adeg, mewn unrhyw ran o ddyfroedd Cymru sydd ymhellach na 6 milltir forol ac o fewn 12 milltir forol i waelodlinau, ddefnyddio bar tynnu mewn cysylltiad â physgota am, cymryd neu ladd cregyn bylchog, onid yw'r bar tynnu hwnnw–

- (a) yn ddim mwy na 6.8 metr o hyd; a
- (b) wedi ei lunio mewn ffordd nad yw'n caniatáu rhoi mwy na 7 llusgrwyd cregyn bylchog ynghlwm wrtho ar yr un pryd.

9. Ni chaniateir i unrhyw gwch pysgota Prydeinig ar unrhyw adeg, mewn unrhyw ran o ddyfroedd Cymru, mewn cysylltiad â physgota am, cymryd neu ladd cregyn bylchog, ddefnyddio bar tynnu sydd â'i ddiamedr allanol yn fwy na 185 milimetr.

Manyleb llusgrwydi cregyn bylchog

10.–(1) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r erthygl hon, ni chaniateir i unrhyw gwch pysgota Prydeinig dynnu unrhyw lusgrwyd cregyn bylchog o fewn dyfroedd Cymru oni bai, yn achos y cyfryw lusgrwyd–

- (a) nad yw unrhyw ran o'r ffrâm yn lletach nag 85 centimetr;
- (b) ei bod yn cynnwys bar danheddog sbring–lwythog effeithiol, gweithredol a symudadwy;
- (c) nad yw'n cynnwys unrhyw atodiadau ar ei

than 14 scallop dredges in total.

7. When not in use in accordance with the provisions of this Order all scallop dredges must be inboard, stowed and secured.

Restriction on size of tow bars

8.–(1) No British fishing boat is permitted, at any time, in any part of Welsh waters which lies beyond 1 nautical mile and within 3 nautical miles of baselines, to use a tow bar in connection with fishing for, taking or killing scallops, unless that tow bar–

- (a) does not exceed 3 metres in length; and
- (b) is not constructed in a way which enables more than 3 scallop dredges to be attached to it at the same time.

(2) No British fishing boat is permitted, at any time, in any part of Welsh waters which lies beyond 3 nautical miles and within 6 nautical miles of baselines, to use a tow bar in connection with fishing for, taking or killing scallops, unless that tow bar–

- (a) does not exceed 4 metres in length; and
- (b) is not constructed in a way which enables more than 4 scallop dredges to be attached to it at the same time.

(3) No British fishing boat is permitted, at any time, in any part of Welsh waters which lies beyond 6 nautical miles and within 12 nautical miles of baselines, to use a tow bar in connection with fishing for, taking or killing scallops, unless that tow bar–

- (a) does not exceed 6.8 metres in length; and
- (b) is not constructed in a way which enables more than 7 scallop dredges to be attached to it at the same time.

9. No British fishing boat is permitted at any time, in any part of Welsh waters to use any tow bar in connection with fishing for, taking or killing scallops, which exceeds 185 millimetres in external diameter.

Specification of scallop dredges

10.–(1) Subject to the provisions of this article, no British fishing boat is permitted to tow any scallop dredge within Welsh waters unless in relation to such a dredge–

- (a) no part of its frame is greater than 85 centimetres wide;
- (b) it includes a functioning, operational and moveable spring loaded tooth bar;
- (c) it does not contain any attachments to the rear,

chefn, ar ei brig nac y tu mewn iddi;

- (ch) nad yw'n cynnwys plât plymio nac unrhyw ddyfais gyffelyb arall;
- (d) nad yw cyfanswm pwysau'r llusgrwyd, gan gynnwys yr holl ffitiadau, yn fwy na 150 cilogram;
- (dd) nad yw nifer y modrwyau bol ym mhob rhes sy'n hongian o'r bar bol yn fwy na 7;
- (e) nad yw nifer y dannedd ar y bar danheddog yn fwy nag 8; ac
- (f) nad oes yr un dant ar y bar danheddog sydd â'i ddiamedr yn fwy na 22 milimetr, ac nad yw ei hyd yn fwy na 110 milimetr.

(2) Yn yr erthygl hon—

- (a) rhes o fodrwyau bol yw rhes o fodrwyau cydgysylltiol sengl, gyda'r fodrwy sydd yn un pen i'r rhes yn hongian, naill ai o'r bar bol neu o brif adeiledd y llusgrwyd, yn berpendicwlar i'r bar bol;
- (b) bar bol yw'r bar sydd wedi ei gysylltu wrth ffrâm y llusgrwyd, yn baralel i'r bar danheddog, ac y mae'r modrwyau bol yn hongian oddi arno;
- (c) bar danheddog yw'r bar â dannedd arno sydd â'u pennau yn pwyntio i waered, ac y bwriedir iddynt gyffwrdd â gwely'r môr wrth i'r llusgrwyd gael ei defnyddio;
- (ch) diamedr dant yw ei led mwyaf, a fesurir i gyfeiriad llinell y bar danheddog; a
- (d) hyd dant yw'r pellter rhwng ochr isaf y bar danheddog a blaen y dant.

(3) Rhaid peidio ag ystyried modrwyau bol a'r ffasninau sy'n eu cysylltu â'i gilydd ac â'r ffrâm yn atodiadau at ddiben paragraff (1)(c).

Maint lleiaf cragen fylchog

11.—(1) At ddibenion adran 1(3) o'r Ddeddf, maint lleiaf cragen fylchog y caniateir ei chario gan gwch pysgota Prydeinig yn nyfroedd Cymru yw 110 milimetr.

(2) At ddibenion paragraff (1), rhaid mesur maint cragen fylchog yn unol â pharagraff 6 of Atodiad XIII i Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 850/98 ar gadwraeth adnoddau pysgodfeydd drwy fesurau technegol i ddiogelu organebau morol ifanc(1) fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

Gwahardd llusgrwydo

12. Er gwaethaf erthyglau 3 i 11 o'r Gorchymyn hwn, gwaherddir pysgota am, cymryd neu ladd cregyn

(1) OJ Rhif L125, 27.4.1998, t. 1.

top or inside of the dredge;

- (d) it does not contain a diving plate or any other similar device;
- (e) the total weight of the dredge including all fittings does not exceed 150 kilograms;
- (f) the number of belly rings in each row suspended from the belly bar does not exceed 7;
- (g) the number of teeth on the tooth bar does not exceed 8; and
- (h) each tooth on the tooth bar measures no more than 22 millimetres in diameter and 110 millimetres in length.

(2) In this article—

- (a) a row of belly rings is a line of single interconnecting rings, where the ring at one end of the line hangs either from the belly bar or from the main structure of the dredge perpendicular to the belly bar;
- (b) a belly bar is the bar attached to the frame of the dredge which runs parallel to the tooth bar and from which the belly rings hang;
- (c) a tooth bar is the bar to which are attached teeth, the ends of which point downwards and are intended to be in contact with the sea bed when the dredge is in operation;
- (d) the diameter of a tooth is its maximum width measured in the direction of the line of the tooth bar; and
- (e) the length of a tooth is the distance between the underside of the tooth bar and the tip of the tooth.

(3) Belly rings and the fastenings which attach them to each other and to the frame are not to be regarded as attachments for the purpose of paragraph (1)(c).

Minimum size of scallop

11.—(1) For the purposes of section 1(3) of the Act, the minimum size of scallop that may be carried by a British fishing boat in Welsh waters is 110 millimetres.

(2) For the purposes of paragraph (1), the size of a scallop is to be measured in accordance with paragraph 6 of Annex XIII to Council Regulation (EC) No 850/98 for the conservation of fishery resources through technical measures for the protection of juvenile marine organisms(1) as amended from time to time.

Prohibition on dredging

12. Notwithstanding articles 3 to 11 of this Order fishing for, taking or killing of scallops by the use of a

(1) OJ No. L125, 27.4.1998, p. 1.

bylchog gan ddefnyddio llusgrwyd cregyn bylchog gan gyhod pysgota Prydeinig yn yr ardaloedd a ddynodir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Pwerau swyddogion pysgodfeydd môr Prydain

13.–(1) At ddibenion gorfodi'r Gorchymyn hwn neu unrhyw ddarpariaeth gyfatebol, caiff swyddog pysgodfa fôr Brydeinig arfer y pwerau a roddir gan yr erthygl hon mewn perthynas ag unrhyw gwch pysgota y mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys iddo yn nyfroedd Cymru.

(2) Caiff y swyddog fynd ar fwrdd y cwch, ar y cyd â phersonau a neilltuwyd i gynorthwyo gyda dyletswyddau'r swyddog hwnnw neu hebddynt, a chaiff wneud yn ofynnol bod y cwch yn aros, a gwneud unrhyw beth arall i hwyluso mynd ar ei fwrdd neu fynd oddi arno.

(3) Caiff y swyddog wneud yn ofynnol bod meist'r y cwch a phersonau eraill sydd ar ei fwrdd yn bresennol, a chaiff wneud unrhyw archwiliad neu ymchwiliad sy'n ymddangos i'r swyddog yn angenrheidiol at y diben a grybwyllir ym mharagraff (1) ac, yn benodol–

- (a) caiff chwilio am bysgod neu offer pysgota ar y cwch, ac archwilio unrhyw bysgodyn sydd ar y cwch a chyfarpar y cwch, gan gynnwys yr offer pysgota, a gwneud yn ofynnol bod personau ar fwrdd y cwch yn gwneud unrhyw beth sy'n ymddangos i'r swyddog yn angenrheidiol er mwyn hwyluso'r archwiliad;
- (b) caiff wneud yn ofynnol bod unrhyw berson ar fwrdd y cwch yn dangos unrhyw ddogfen sydd yn ei feddiant neu dan ei ofal ac yn ymwneud â'r cwch, neu ag unrhyw weithrediadau pysgota neu weithrediadau atodol neu ag unrhyw bersonau sydd ar fwrdd y cwch;
- (c) at y diben o wybod a yw meist'r, perchennog neu siartrwr y cwch wedi cyflawni tramgwydd o dan y Ddeddf fel y'i darllenir ynghyd â'r Gorchymyn hwn, neu unrhyw ddarpariaeth gyfatebol, caiff chwilio'r cwch am unrhyw ddogfen o'r fath a chaiff ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw berson ar fwrdd y cwch yn gwneud unrhyw beth sy'n ymddangos i'r swyddog yn angenrheidiol er mwyn hwyluso'r chwiliad;
- (ch) archwilio a chopio unrhyw ddogfen o'r fath a ddangosir neu a ganfyddir ar fwrdd y cwch, ac os yw unrhyw ddogfen o'r fath wedi ei chadw gan ddefnyddio cyfrifiadur, gwneud yn ofynnol ei chynhyrchu mewn ffurf a fydd yn caniatáu ei chludo ymaith; a
- (d) os yw'r cwch yn un y mae rheswm gan y swyddog i amau bod tramgwydd wedi ei gyflawni ynglŷn ag ef, o dan y Gorchymyn hwn neu unrhyw ddarpariaeth gyfatebol, caiff y swyddog, yn ddarostyngedig i baragraff (4), ymafael mewn unrhyw ddogfen o'r fath a

scallop dredge by British fishing boats is prohibited in the areas designated in the Schedule to this Order.

Powers of British sea-fishery officers

13.–(1) For the purposes of enforcing this Order or any equivalent provision, a British sea fishery officer may exercise the powers conferred by this article in relation to any fishing boat to which this Order applies in Welsh waters.

(2) The officer may go on board the boat, with or without persons assigned to assist in that officer's duties, and may require the boat to stop and do anything else which will facilitate boarding or disembarkation.

(3) The officer may require the attendance of the master and other persons on board the boat and may make any examination and inquiry as appears to the officer to be necessary for the purpose mentioned in paragraph (1), and in particular may–

- (a) search for fish or fishing gear on the boat and examine any fish on the boat and the equipment of the boat, including the fishing gear, and require persons on board the boat to do anything which appears to the officer to be necessary for facilitating the examination;
- (b) require any person on board the boat to produce any document in that person's custody or possession relating to the boat, to any fishing or ancillary operations or to persons on board;
- (c) for the purpose of ascertaining whether the master, owner or charterer of the boat has committed an offence under the Act as read with this Order or any equivalent provision, search the boat for any such document and may require any person on board the boat to do anything which appears to the officer to be necessary for facilitating the search;
- (d) inspect and copy any such document produced or found on board the boat and, where any such document is kept by means of a computer, require it to be produced in a form in which it may be taken away; and
- (e) where the boat is one in relation to which the officer has reason to suspect that an offence under this Order or an equivalent provision has been committed, subject to paragraph (4), seize and detain any such document produced or found on board the boat for the purpose of

ddangoswyd neu a ganfuwyd ar fwrdd y cwch a'i chadw at y diben o alluogi defnyddio'r ddogfen yn dystiolaeth mewn achos ynglŷn â'r tramgwydd.

(4) Nid oes dim ym mharagraff (3)(d) sy'n caniatáu ymafael mewn unrhyw ddogfen a'i chadw os yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith cario'r ddogfen ar fwrdd y cwch, ac eithrio pan fo'r cwch yn cael ei gadw'n gaeth mewn porthladd.

(5) Os yw'n ymddangos i swyddog pysgodfa fôr Brydeinig fod tramgwydd o dan y Gorchymyn hwn neu unrhyw ddarpariaeth gyfatebol wedi ei gyflawni ar unrhyw adeg mewn perthynas â chwch pysgota, caiff y swyddog—

- (a) mynd â'r cwch a'i griw, neu wneud yn ofynnol bod y meist'r yn mynd â'r cwch a'i griw, i'r porthladd sy'n ymddangos i'r swyddog fel y porthladd cyfleus agosaf; a
- (b) cadw'r cwch yn gaeth yn y porthladd, neu wneud yn ofynnol bod y meist'r yn ei gadw'n gaeth yno.

(6) Rhaid i swyddog pysgodfa fôr Brydeinig sy'n cadw cwch yn gaeth, neu'n gwneud yn ofynnol ei gadw'n gaeth, gyflwyno i'r meist'r hysbysiad ysgrifenedig yn datgan y cedwir y cwch yn gaeth, neu ei bod yn ofynnol ei gadw'n gaeth hyd nes y tynnir yr hysbysiad yn ôl drwy gyflwyno i'r meist'r hysbysiad ysgrifenedig arall a lofnodir gan swyddog pysgodfa fôr Brydeinig.

(7) Yn yr erthygl hon, ystyr "swyddog" ("*officer*") yw swyddog pysgodfa fôr Brydeinig.

Dirymu

14. Mae'r Gorchymynion a ganlyn wedi eu dirymu, sef—

- (a) Gorchymyn Gwahardd Pysgota am Gregyn Bylchog (Cymru) 2009(1); a
- (b) Gorchymyn Pysgota am Gregyn Bylchog (Cymru) 2010(2).

Elin Jones

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weiniogion Cymru

8 Chwefror 2010

enabling the document to be used as evidence in proceedings for the offence.

(4) Nothing in paragraph 3(e) permits any document required by law to be carried on board the boat to be seized and detained except while the boat is detained in a port.

(5) Where it appears to a British sea-fishery officer that an offence under this Order or any equivalent provision has at any time been committed in relation to a fishing boat, the officer may—

- (a) take, or require the master of the boat to take, the boat and its crew to the port which appears to the officer be the nearest convenient port; and
- (b) detain or require the master to detain the boat in the port.

(6) A British sea-fishery officer who detains or requires the detention of a boat must serve on the master a written notice stating that the boat is, or is required to be, detained until the notice is withdrawn by the service on the master of a further written notice signed by a British sea-fishery officer.

(7) In this article, "*officer*" ("*swyddog*") means British sea-fishery officer.

Revocation

14. The following Orders are revoked, namely—

- (a) the Prohibition of Fishing for Scallops (Wales) Order 2009(1); and
- (b) the Scallop Fishing (Wales) Order 2010(2).

Minister for Rural Affairs, one of the Welsh Ministers.

8 February 2010

(1) O.S. 2009/2721 (Cy. 232).

(2) O.S. 2010/203 (Cy.30).

(1) S.I. 2009/2721 (W.232).

(2) S.I. 2010/203 (W. 30).

ATODLEN

Gwahardd llusgrwydo

Erthygl 12

Yn yr Atodlen hon, mae unrhyw grŵp o ddwy lythyren a naill ai pum neu chwe ffigur, sy'n dynodi neu sy'n gysylltiedig ag unrhyw bwynt, yn cynrychioli cyfesurynnau map y pwynt hwnnw, a amcangyfrifir i'r deng metr agosaf ar grid y system gyfeirio genedlaethol a ddefnyddir gan yr Arolwg Ordnans ar ei fapiau a'i gynlluniau.

Mynegir yr holl gyfesurynnau lledred a hydred mewn graddau, munudau a ffractsiynau degol o funud, ac y maent yn gyfesurynnau o'r System Geodetig Fyd-eang.

Bae Lerpwl

Yr ardal a amgaeir gan y draethlin, y ffin rhwng dyfroedd tiriogaethol Cymru a Lloegr a llinell a dynnir rhwng y pwyntiau canlynol:

Ile mae'r llinell hydred 3°48.40 Gn yn croesi'r lan yn Llandudno i 53°24.82 G, 3°48.40 Gn, yna i 53°24.82 G, 3°32.97 Gn i 53°27.07 G, 3°25.40 Gn i'r llinell ledred 53°27.07 G sydd yn croesi'r ffin rhwng dyfroedd tiriogaethol Cymru a Lloegr i'r gogledd o aber Afon Dyfrdwy.

Menai, Ynys Môn a Chonwy

Yr holl ddyfroedd hyd at y marc penllanw cymedrig yn yr ardal a amgaeir o fewn y canlynol:

Ilinell a dynnir o 53°21.6 G, 4°15.02 Gn i 53°22.18 G, 3°46.54 Gn i 53°19.60 G, 3°46.54 Gn; a llinell a dynnir i'r gogledd ar hyd y llinell hydred 4°19.58 Gn rhwng Fort Belan a Thryw Abermenai.

Ardal Gogledd Llŷn

Yr ardal a amgaeir rhwng y draethlin a llinell a dynnir rhwng y pwyntiau sydd â'r cyfesurynnau canlynol:

52°56.909 G, 04°34.055 Gn i 52°59.858 G, 04°38.782 Gn i 52°55.455 G, 04°45.891 Gn i 52°52.928 G, 04°41.878 Gn i 52°52.155 G, 04°43.359 Gn i 52°51.563 G, 04°42.372 Gn.

Pen Llŷn a'r Sarnau

Yr ardal a amgaeir rhwng y draethlin a llinell a dynnir rhwng y pwyntiau sydd â'r cyfesurynnau canlynol:

Cyfeirnod Grid OS SH2964 4123 i 52°58.37G, 4°37.06Gn i 52°51.07G, 4°50.07Gn i 52°41.18G, 4°50.07Gn i 52°41.18G, 4°25.37Gn i 52°34.82G,

SCHEDULE

Prohibition on dredging

Article 12

In the Schedule a group of two letters and five or six figures identifying or associated with any point represents the map co-ordinates of that point estimated to the nearest ten metres on the grid of the national reference system used by the Ordnance Survey on its maps and plans.

All latitude and longitude co-ordinates given are in degrees, minutes and decimal fractions of a minute and are co-ordinates of the World Geodetic System.

Liverpool Bay

The area enclosed between the shoreline, the boundary between Welsh and English territorial waters and a line drawn between the following points:

where line of longitude 3°48.40 W crosses the shore at Llandudno to 53°24.82 N, 3°48.40 W, then to 53°24.82 N, 3°32.97 W to 53°27.07 N, 3°25.40 W to the line of latitude 53°27.07 N that crosses the boundary between Welsh and English territorial waters north of the Dee Estuary.

Menai, Anglesey and Conwy

All waters up to the mean high water mark in the area bounded by the following:

a line drawn from 53°21.6N, 4°15.02W to 53°22.18N, 3°46.54W to 53°19.60N, 3°46.54W; and a line drawn north along the longitude line of 4°19. 58. W between Fort Belan and Abermenai Point.

North Llŷn Area

The area enclosed between the shoreline and a line drawn between points with the following co-ordinates:

52°56.909 N, 04°34.055 W to 52°59.858 N, 04°38.782 W to 52°55.455 N, 04°45.891 W to 52°52.928 N, 04°41.878 W to 52°52.155 N, 04°43.359 W to 52°51.563 N, 04°42.372 W.

Pen Llŷn a'r Sarnau

The area enclosed between the shoreline and a line drawn between points with the following co-ordinates:

OS Grid Reference SH2964 4123 to 52°58.37N, 4°37.06W to 52°51.07N, 4°50.07W to 52°41.18N, 4°50.07W to 52°41.18N, 4°25.37W to 52°34.82N,

4°13.6Gn i 52°25.83G, 4°16.35Gn i 52°24.42G, 4°14.17Gn i SN5868 8401.

Bae Ceredigion

Yr ardal a amgaeir rhwng y draethlin a llinell a dynnir rhwng y pwyntiau sydd â'r cyfesurynnau canlynol:

Cyfeirnod Grid OS SN47874 64087 i 52°25.10 G, 4°23.80 Gn i 52°20.09 G, 4°39.04 Gn i 52°13.00 G, 4°34.07 Gn i 52°11.04 G, 4°41.19 Gn i 52°17.76 G, 4°46.14 Gn i 52°13.15 G, 5°00.15 Gn i Gyfeirnod Grid OS SN10438 45534.

Sir Benfro

Yr ardal a amgaeir rhwng y draethlin a llinell a dynnir rhwng y pwyntiau sydd â'r cyfesurynnau canlynol

Cyfeirnod Grid OS SM80320 32330 i 51°56.69 G, 5°30.07 Gn i 51°48.02 G, 5°30.06 Gn i 51°48.02 G, 5°45.06 Gn i 51°38.52 G, 5°45.06 Gn i 51°38.53 G, 5°10.07 Gn i 51°32.02 G, 5°10.07 Gn i 51°32.02 G, 4°48.07 Gn i Gyfeirnod Grid OS SS06267 96997.

Bae Caerfyrddin

Yr ardal o'r môr sydd ar ochr y tir o linell a dynnir rhwng y pwyntiau sydd â'r cyfesurynnau canlynol:

Cyfeirnod Grid OS SS13336 99905 i 51°36.02 G, 4°42.06 Gn i 51°36.02 G, 4°27.06 Gn i 51°30.03 G, 4°27.03 Gn i 51°30.02 G, 4°10.07 Gn i Gyfeirnod Grid OS SS49771 84968.

Gogledd Ynys Môn

Yr ardal a amgaeir gan linell a dynnir rhwng y pwyntiau sydd â'r cyfesurynnau canlynol:

53°35.19 G, 4°33.78 Gn i 53°36.41 G, 4°16.36 Gn i 53°33.20 G, 4°33.99 Gn i 53°31.57 G, 4°16.36 Gn.

Gorllewin Ynys Môn

Yr ardal a amgaeir gan linell a dynnir rhwng y pwyntiau sydd â'r cyfesurynnau canlynol:

53°24.21 G, 4°59.55 Gn i 53°19.09 G, 4°51.03 Gn i 53°17.27 G, 4°54.65 Gn i 53°22.19 G, 5°1.03 Gn.

© Hawlfraint y Goron 2010

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

4°13.6W to 52°25.83N, 4°16.35W to 52°24.42N, 4°14.17W to SN5868 8401.

Cardigan Bay

The area enclosed between the shoreline and a line drawn between points with the following co-ordinates:

OS Grid Reference SN47874 64087 to 52°25.10 N, 4°23.80W to 52°20.09N, 4°39.04W to 52°13.00N, 4°34.07W to 52°11.04N, 4°41.19W to 52°17.76N, 4°46.14W to 52°13.15N, 5°00.15W to OS Grid Reference SN10438 45534.

Pembrokeshire

The area of sea landward of a line drawn between the points with the following co-ordinates:

OS Grid Reference SM80320 32330 to 51°56.69N, 5°30.07W to 51°48.02N, 5°30.06W to 51°48.02N, 5°45.06W to 51°38.52N, 5°45.06W to 51°38.53N, 5°10.07W to 51°32.02N, 5°10.07W to 51°32.02N, 4°48.07W to OS Grid Reference SS06267 96997.

Carmarthen Bay

The area of sea landward of a line drawn between the points with the following co-ordinates:

OS Grid Reference SS13336 99905 to 51 36.02N, 4°42.06W to 51°36.02N, 4°27.06W to 51°30.03N, 4°27.03W to 51°30.02N, 4°10.07W to OS Grid Reference SS49771 84968.

North Anglesey

The area bounded by a line drawn between the points with the following coordinates:

53°35.19 N, 4°33.78 W to 53°36.41 N, 4°16.36 W to 53°33.20 N, 4°33.99 W to 53°31.57 N, 4°16.36 W.

West Anglesey

The area bounded by a line drawn between the points with the following coordinates:

53°24.21 N, 4°59.55 W to 53°19.09 N, 4°51.03 W to 53°17.27 N, 4°54.65 W to 53°22.19 N, 5°1.03 W.

© Crown copyright 2010

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2010 Rhif 269 (Cy.33)

**PYSGODFEYDD MÔR,
CYMRU**

CADWRAETH PYSGOD MÔR

Gorchymyn Pysgota am Gregyn
Bylchog (Cymru) (Rhif 2) 2010

WELSH
STATUTORY INSTRUMENTS

2010 No. 269 (W.33)

**SEA FISHERIES,
WALES**

CONSERVATION OF SEA FISH

The Scallop Fishing (Wales) (No.2)
Order 2010